

TRAVELLING AHEAD

# Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid

## ADRODDIAD POBL IFANC


















Achub y Plant
Save the Children

# CYFLWYNIAD

Mae Teithio Ymlaen yn brosiect a gynhelir gan Achub y Plant sy'n gweithio ledled Cymru gyda phlant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nod Teithio Ymlaen yw cynorthwyo pobl ifanc i wireddu eu hawliau a chael llais yn ymwneud â materion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r prosiect yn cefnogi fforymau ieuenctid lleol, mae pobl ifanc yn helpu i drefnu digwyddiadau rhanbarthol ddwywaith y flwyddyn a chynhelir Fforwm Cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc yn flynyddol. Caiff Teithio Ymlaen ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae grant bach gan Blant mewn Angen wedi ein helpu i gynnal y Prosiect Arfer Da mewn Addysg hwn.

Mae hwn yn adroddiad ar gyfer y bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect ymchwil addysg hwn rhwng 2014 – 2015. Trwy ein gwaith fforwm dywedasoch wrthym eich bod yn aml yn wynebu rhwystrau yn cael mynediad at addysg ac y gallai dileu'r rhwystrau hyn helpu agweddau negyddol a chynyddu eich cyfranogiad mewn addysg. Fe wnaethom wrando ar yr hyn a ddywedasoch, ac o ganlyniad, datblygwyd y prosiect '*Arfer Da mewn Addysg*'. Cafodd y prosiect ei ddylunio a'i gyflenwi gan y bobl ifanc eu hunain.

Gweithredodd dau grŵp o bobl ifanc fel grŵp cyfeirio a llunio cwestiynau a ddatblygwyd yn arolwg cyfrinachol a anfonwyd at bobl ifanc fel chi ledled Cymru. Llenwodd dros 50 o bobl ifanc yr arolwg. Os gwnaethoch chi lenwi un, diolch yn fawr!

Fe wnaethom hefyd weithio gyda grwpiau o bobl ifanc ledled Cymru i greu 'cardiau adroddiad ysgol', a roddodd gyfle i rai ohonoch raddio eich ysgol o A-F a thrafod eich profiadau addysgol yn fanylach. Mae'r holl wybodaeth o'r arolygon a'r cardiau adroddiad wedi cael eu rhoi gyda'i gilydd i greu'r adroddiad hwn. Mae Teithio Ymlaen hefyd wedi sefydlu cyfarfodydd gyda gwneuthurwyr penderfyniadau mewn addysg er mwyn i chi allu rhannu eich safbwyntiau.

Ar ddiwedd y prosiect cynhaliwyd grŵp ffocws terfynol o 12 o bobl ifanc – fe wnaethoch chi ddatblygu'r argymhellion terfynol yn yr adroddiad hwn er mwyn i'r bobl sy'n rheoli allu darllen eich safbwyntiau a helpu i wella'r ffordd yr ydych yn dysgu!


**Diolch i bawb a gymerodd ran a dewch i weld beth oedd gennych i'w ddweud!**

**Rhestr o'r rhanbarthau a'r grwpiau oedd yn gysylltiedig â'r Prosiect 'Arfer Da mewn Addysg'.**

Roedd ein grŵp cyfeirio a ddyluniodd a dadansoddi'r arolwg yn cynnwys pobl ifanc o Fforwm New Leaf yng Nghaerdydd a disgyblion o Ysgol Ganol Dyffryn, Port Talbot.

Anfonwyd yr arolwg allan a'i llenwi gan y rhanbarthau canlynol:

- Caerdydd
- Sir y Fflint
- Wrecsam
- Merthyr Tudful
- Sir Benfro
- Sir Gaerfyrddin
- Casnewydd
- Torfaen
- Castell-nedd Port Talbot
- Abertawe



# A R O L W G C A

**Gofynnwyd i chi lenwi arolwg oedd yn edrych ar eich addysg a'r hyn sydd ei angen arnoch. Dyma'r canlyniadau:**

Benywaidd 37

Gwrywaidd 22

24 yn byw mewn tŷ

35 yn byw ar faes neu eu tir eu hunain

Llenwodd 59 o bobl ifanc yr arolwg i gyd.

## Ydych chi'n mynd i'r ysgol?

Nac ydw 4

Ydw 55

## Ydych chi erioed wedi cael eich addysgu gartref?

Naddo 55


Do 6

## Ein hoff bynciau yw...




## Ble fyddech chi'n hoffi mynd i'r ysgol?


- Mewn uned (19%)
- Addysg gartref (16%)
- Ysgol prif ffrwd (40%)
- Cymysgedd o Uned ac ysgol (25%)



O'r 57 o ymatebion, byddai'r rhan fwyaf ohonoch (23) yn hoffi mynd i ysgol prif ffrwd, ni wnaeth 2 ymateb.

## Beth yw eich barn am yr ysgol?

- Rwy'n hoffi'r ysgol (21%)
- Mae'n iawn (48%)
- Nid wyf yn hoffi'r ysgol (3%)
- Rwy'n casáu'r ysgol (19%)
- Ni roddwyd ateb (9%)



O'r 54 o ymatebion, roedd y rhan fwyaf ohonoch (28) yn meddwl bod yr ysgol yn iawn, ni wnaeth 5 ymateb.


# NLYNIADAU

## Ydych chi'n meddwl bod yr ysgol yn ddiflas?



Dywedodd 34 Ydw
Dywedodd 19 Nac ydw
Dywedodd 6 Weithiau


## A yw agweddau'r rheiny nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn teimlo am yr ysgol?



Ydy (19%) Nac ydy (75%)
Ni roddwyd ateb (6%)

Dywedodd y rhan fwyaf ohonoch nad oedd agweddau'n effeithio'r ffordd yr ydych yn teimlo.

## Beth hoffech chi ei ddysgu?




Dyma'r pethau y dywedasoch y byddech yn hoffi eu dysgu yn yr ysgol.

## Ydych chi'n credu bod pobl ifanc sydd yn Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu trin yn wahanol i bobl ifanc eraill yn yr ysgol?



Dywedodd 26 Ydw, dywedodd 21 Nac ydw, ac ni wnaeth 12 ateb.

# YN YR AROLWG FE WNAETHOCH HEFYD DDWEUD WRTHYM:

"Mae angen athro/athrawes sy'n Sipsi arnom."

"Mae rhai pobl ifanc eisiau mynd i'r ysgol ond nid yw eu rhieni'n gadael iddynt."

"Ni fyddaf yn mynd i'r gwersyll y flwyddyn nesaf am fod mam a dad yn dweud bod yr ysgol yn rhy bell i ffwrdd, ac nid ydynt eisiau i mi fynd ar y bws ar ben fy hun. Mae mam yn credu y byddaf yn gweld ac yn dysgu pethau drwg."

"Rydym eisiau gwneud cyflwyniad ar gyfer pwy bynnag sy'n gyfrifol am ein haddysg er mwyn iddynt allu dysgu amdanom ni."

"Byddai'n well gen i fynd i ACT." (Cwmni Hyfforddiant)

"Mae'n rhaid i rai ohonom aros gartref a helpu ein teulu."

"Rydym yn ofni ein dyfodol"

"rydym yn teimlo wedi ein siomi."

## Rwy'n mynd i'r ysgol oherwydd:

"Rwyf eisiau cael swydd pan fyddaf yn hŷn."

"I gael swydd dda a bod yn annibynnol."

## Ydych chi'n cael eich trin yn wahanol yn yr ysgol?

"Ydw. Nid oes rhaid i'r gymuned sefydlog aros mewn un ystafell."

"Ydw, am nad yw'r athrawon yn deall pwy ydyn ni."

"Ydw - mae pawb yn wahanol, weithiau rwy'n cael fy ngalw'n 'pikey' neu 'gyppo' ond ar y cyfan nid yw'n rhy ddrwg."

"Weithiau, mae'n dibynnu. Rydym yn cael ein galw yn 'pikey' a 'gyppo'."

## Beth fyddai'n gwneud i chi fynd i'r ysgol yn fwy rheolaidd?

"Pe byddai'n fwy o hwyl."

"Pe byddai'n ysgol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr."


"Cael cymorth i Deithwyr."

"Nid ydym yn cael addysg."

"Roedd rhywun i fod dod i'r safle i'n haddysgu, ond nid ydynt yn dod."

# CANFYDDIADAU'R YMCHWIL - Y CARDIAU ADRODDIAD

Mae Teithio Ymlaen yn cynnal tri fforwm rhanbarthol ledled Cymru (De Ddwyrain, De Orllewin a Gogledd Cymru) – trwy'r rhain fe wnaeth rhai ohonoch chi oedd wedi llenwi arolygon hefyd edrych ar bethau'n fwy gofalus i nodi'r hyn yr oeddech yn teimlo oedd yn gweithio'n dda, a dim cystal yn yr ysgol ac mewn addysg. Rhestrodd eich grwpiau eu safbwyntiau a'u graddio o A-F. Fe wnaeth rhai ohonoch hefyd greu 'rhestr dymuniadau addysg' a roddodd gyfle i chi ddweud wrthym pa fath o bethau yr hoffech ar gyfer eich addysg mewn byd delfrydol.




*Cardiau adroddiad unigol gan bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd 2015*

# CARDEN ADRODDIAD

Rhanbarth A

| Gweithio'n Dda | Gradd |
|---|---|
| Pan fyddwch yn dechrau'r ysgol gyntaf, rydych yn cael rhywun i ddilyn; mynd â chi i'r dosbarth ac ati. | A |
| Gwersi cerddoriaeth am ddim. | A |
| Cyfleusterau da. | B |
| Gallwn siarad ag athrawon os oes gennym unrhyw broblemau. | C |

| Ddim yn gweithio'n dda | Gradd |
|---|---|
| Gallai rhai ystafelloedd fod yn gynhesach/oerach. | C |
| Dim cefnogaeth gan rai athrawon i gyflawni ein gorau. | C |
| Mewn rhai gwersi tynnir ein sylw gan ddisgyblion eraill. Dim cyfle i ddangos yr hyn y gallwn ei wneud a chael ein rhoi yn y set gywir ar gyfer ein galluoedd. | C |
| Dim cyfleoedd gwirioneddol i fynegi ein hunain mewn gwersi h.y. ateb cwestiynau yn y dosbarth. | C |
| Nid yw rhai pobl yn yr ysgol yn ein derbyn ni. | C |
| Ni chafodd addewidion y Diwrnod Pontio eu gwireddu h.y. cymorth a chefnogaeth. | C |
| Athrawon cyflenwi – dim perthynas gyda'r bobl iau, ddim yn deall sut rydym yn dysgu a'n hanghenion dysgu. | D |
| Nid oes gan rai ohonom ddefnydd o gyfrifiaduron a/neu WIFI gartref. Methu gwneud ein gwaith cartref. | D |
| Nid yw rhai athrawon yn gwrando arnom ni os ydym angen siarad. | D |

## Rhestr Dymuniadau Addysg

Dim gwisg ysgol, ysgol yn dechrau am 9am ac yn gorffen am 1pm, ystafelloedd dosbarth braf a glân, dim profion ond cadw cofnod o'r staff i gyd er mwyn i ni allu cofio – gwaith cwrs, rydym eisiau ysgol arbennig i Deithwyr, cael gwersi i'n diwylliant ni, gwersi i fechgyn- adeiladu, cynnal a chadw, peirianneg, cynnal a chadw ceir, darllen, mathemateg. Merched: gwersi - drama, coginio, hanes, grŵp ieuenctid.

# CARDEN ADRODDIAD

## Rhanbarth B

| Gweithio'n Dda | Gradd |
|---|---|
| Oni bai am ein tîm Cymorth i Deithwyr ni fyddai unrhyw un ohonom yn mynd i'r ysgol. Maent yn ein helpu i astudio ar gyfer ein harholiadau. Pe byddai hyn yn cael ei gymryd i ffwrdd, byddwn yn teimlo nad oedd lle i ni yn yr ysgol. | A |
| Mae gan rai athrawon wersi cyffrous a hwyliog nad ydynt yn ymwneud ag ysgrifennu popeth a darllen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgogi eu disgyblion. | B |
| Mae'r ysgol yn lle mawr, sy'n golygu os oes angen gofod arnoch, mae lle i fynd. Mae rhai o'r disgyblion yma yn gyfeillgar ac yn hoffi cymysgu â theithwyr a dysgu am ein diwylliant. | B |
| Mae rhai o'r rheolau, fel dim bwlio a fandaliaeth, yn bwysig. Mae rhywfaint o'r wisg ysgol yn iawn. | C |

| Ddim yn gweithio'n dda | Gradd |
|---|---|
| Athrawon negyddol. Nid yw rhai athrawon yn deall ein ffordd o fyw, felly maent yn gwylltio gyda ni yn lle ceisio ein deall ni. Rydym eisiau trefnu cyfarfod er mwyn iddynt allu deall ein diwylliant. | D |
| Nid yw rhai athrawon cyflenwi'n gwybod sut i'n haddysgu ni yn iawn. Nid yw rhai o'r athrawon cyflenwi'n gwybod sut i ddisgyblu myfyrwyr. | D |
| Mae rhai o'n hoffer a'n llyfrau wedi cael eu dinistrio. Mae ein llyfrau gwyddoniaeth wedi cael eu rhwygo ac mae geiriau a delweddau anweddus arnynt, felly mae angen rhai newydd arnom. | F |
| Weithiau nid yw'r disgyblion nad ydynt yn Deithwyr yn ein deall ni ac yn ein trin ni yn wahanol. | F |

| Rhestr Dymuniadau Addysg |
|---|
| Dod i'r ysgol am 12, cael ystafell ymlacio, cael rhai athrawon sy'n Sipsiwn, pennaeth newydd, dim gwisg ysgol, mwy o wersi cerddoriaeth. |

# CARDEN ADRODDIAD


## Rhanbarth C

| Gweithio'n Dda | Gradd |
|---|---|
| Mae Addysg Gorfforol yn hwyl. | A |
| Teithiau ysgol da. | A |
| I gyd gyda'n gilydd mewn un dosbarth. | A |
| Rydym yn cael cymwysterau. | A |
| Mae'r athrawon yn ein trin ni gyda pharch. | B |
| Mae bwlio'n cael ei drin yn dda. | B |

| Ddim yn gweithio'n dda | Gradd |
|---|---|
| Ddim yn dysgu sgiliau bywyd. | D |
| Gormod o arholiadau mewn amser byr. Gormod o straen. | D |
| Mae angen diweddaru cyfleusterau fel T.G. | D |
| Gormod o waith cartref. | F |

### Rhestr Dymuniadau Addysg

Athrawon gwell, gwersi byrrach, iPads, cadeiriau cyfforddus, mwy o ddewis mewn pynciau; Dysgu sgiliau bywyd ymarferol, chwaraeon gwahanol, mwy o egwyl, dim gwisg ysgol.




*Cardiau adroddiad unigol gan bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd 2015*

# GOLWG AGOSACH

Mae Teithio Ymlaen yn parhau i weithio gyda'r grwpiau o bobl ifanc i gefnogi eu haddysg ac i sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc yn cael eu hystyried gan wneuthurwyr penderfyniadau addysg yn eu hawdurdodau lleol.

Roedd rhai ohonoch yn poeni am y cynlluniau ar gyfer eich addysg, nid oedd rhai pobl ifanc yn mynd i'r ysgol, roedd diffyg addysg ffurfiol yn y cartref ac roedd eraill yn teimlo nad oedd ganddynt lais mewn penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud. Mae'r adran hon yn edrych ar ddau fater oedd yn bwysig i chi:

**LA 1: Grŵp o bobl ifanc nad ydynt yn cael addysg ar hyn o bryd, dyma'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei gynnig fel dewis amgen i'r ysgol.**

## Rhestr Dymuniadau Addysg

- Tiwtor i'r POD[1]/Canolfan chwarae i baratoi Hyfforddiant yn 14
- Sgiliau TGCh, sgiliau darllen, ysgrifennu a mathemateg sylfaenol
- Sgiliau bywyd – cyllidebu. Sut i sefydlu cyfrif banc, magu hyder, sgiliau gwrando
- Gwallt a Harddwch, coginio, mecaneg, adeiladu, ieithoedd modern, BTEC
- NVQ, therapïau ategol, dylunio graffeg, ffilm – cymwysterau mwy galwedigaethol
- Addysg mewn canolfannau
- Offer – gliniaduron, llyfrau, ysgrifbinnau ac ati, byrddau, cadeiriau i fynd yn y POD neu'r ganolfan chwarae
- Prif hyb yn y ganolfan chwarae a/neu POD, yna mynediad i ysgolion a cholegau/darparwyr hyfforddiant lleol er mwyn defnyddio offer/staff ychwanegol ac ati.
- Troi'r POD yn amgylchedd dysgu
- 3 diwrnod am 2 awr y dydd i ddechrau, er mwyn dod yn ôl i mewn i addysg
- Cwricwlwm wedi ei deilwra ar gyfer bob disgybl – rydym i gyd yn dysgu ar gyflymder gwahanol, gydag arddulliau dysgu gwahanol.

**Troednodyn**

1. Mae POD yn cyfeirio at adeilad cymunedol ar safle Sipsiwn a Theithwyr



*Gweithdy gyda grŵp merched 2014*

**LA2: Grŵp o bobl ifanc y mae eu hysgol yn wynebu cau -** dyma safbwyntiau'r grŵp am effaith ysgol newydd.

## Rhestr Dymuniadau Addysg

- Poeni y byddem yn rhoi'r gorau i'n grŵp
- Neb wedi ymgynghori â ni am gau'r ysgol
- Dylem fod wedi cael llais
- Neb wedi siarad â ni am yr ysgol yn cau
- Llawer o straeon sy'n eu poeni
- Fe wnaethom ddeiseb ond ni chawsom unrhyw adborth. "Nid oedd yn golygu unrhyw beth"
- Mae ein hysgol yn gynhwysol iawn ac yn hyblyg mewn ffordd sy'n gweithio i ni, ni chawn hyn mewn ysgol arall
- Pontio anodd - heriau i ni
- Ysgol gynradd ddim yn gysylltiedig, ddim yn ymarferol ar gyfer pontio i'r ysgol uwchradd
- Pellter i ysgol newydd yn broblem
- Rydym yn poeni na fydd y gymuned a'r ardal o amgylch yr ysgol newydd yn ein deall ac yn ein croesawu ni, am y bydd nifer uwch o deithwyr yn yr ardal ac ni fyddant wedi arfer â hyn.

# EICH ARGYMHELLION I WELLA PROFIAD POBL IFANC SYDD YN SIPSIWN, ROMA A THEITHWYR O ADDYSG

Yn ein grŵp ffocws olaf, edrychwyd ar ganlyniadau'r arolygon a lenwyd gennych chi yn ogystal â'r cardiau adroddiad a grewyd gennych chi a chafwyd rhai argymhellion i wella eich addysg.

Dywedodd llawer ohonoch eich bod yn wynebu rhwystrau'n ymwneud â'r ysgol, fel ofnau am gyffuriau a smygu yn yr ysgol, bwlio ac ofnau o ddysgu pethau nad ydynt yn cael eu caniatáu gan eich rhieni. Roedd llawer ohonoch yn credu nad oedd eich addysg bob amser yn adlewyrchu nac yn parchu eich diwylliant a chryfderau a sgiliau eich cymunedau. Roeddech eisiau teimlo'n fwy cadarnhaol am yr ysgol ac i'ch rhieni deimlo'n gyfforddus eich bod yn aros yn yr ysgol. Dyma'r newidiadau yr hoffech chi eu gweld:

1. Mae angen i athrawon yn yr ysgol geisio deall ein diwylliant. Dylent gael hyfforddiant ar ddeall Sipsiwn, Roma a Theithwyr i'n helpu i gyflawni ein gorau. Mae hyn yn wir am athrawon cyflenwi hefyd!
2. Gwnewch yn siŵr bod gennym fynediad i'r offer diweddaraf a mynediad i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd os nad ar gael gartref i helpu gyda'n gwaith cartref.
3. Mynediad i gyrsiau mwy ymarferol, fel adeiladu a Gwallt a Harddwch, nid cyrsiau academaidd yn unig.
4. Asesiadau ar bob unigolyn i weld pa lefel y maent ac i'w helpu i fynd yn ôl i addysg os nad ydynt yn yr ysgol. Byddai hyn hefyd yn gweithio ar gyfer y rheiny sydd yn yr ysgol.
5. Cymorth ac arweiniad gwell pan fyddwn yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd i wneud pontio'n haws ac yn llai brawychus.
6. Mae'n rhaid ymgynghori â ni a gofyn ein safbwynt am unrhyw newidiadau i'n haddysg neu ble'r ydym yn dysgu.
7. Os ydym yn cael ein bwlio neu'n profi/wedi profi troseddau casineb, mae'n rhaid bod athro neu oedolyn y gallwn fynd atynt i siarad â nhw ac sy'n gallu ein helpu i hysbysu ynghylch pethau os oes angen.

8. Cyllid ychwanegol yn cael ei sefydlu i greu a/neu ddatblygu cymorth arbenigol ar ein cyfer ni neu i diwtoriaid wedi eu hyfforddi i'n helpu i ddysgu os ydym eisiau cael ein dysgu gartref.

9. Canfod ffordd o ddatblygu perthynas rhwng ein teuluoedd ac ysgolion er mwyn chwalu rhwystrau a chynyddu ein cyfranogiad.

10. Dylem gael cyfle cyfartal i ddysgu a chael addysg fel y rheiny o'r gymuned sefydlog.

11. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn gwrando ar ein llais er mwyn sicrhau ein bod yn hapus yn yr ysgol ac i wneud yn siŵr ein bod yn mynychu'n rheolaidd a'n helpu ni os oes gennym broblemau.

12. Dylai fod cwricwlwm wedi ei deilwra ar gyfer disgyblion Sipsiwn a Theithwyr sydd yn hyblyg i'n hanghenion.

## Mae gennym hefyd dri awgrym defnyddiol ar gyfer ysgolion ynghylch sut i weithio gyda disgyblion Sipsiwn a Theithwyr:

1. Byddwch yn ymwybodol o'n diwylliant
2. Byddwch yn ymwybodol o'n gwahaniaethau gyda'r gymuned sefydlog
3. Opsiynau addysg hyblyg a mynychu'n rhan-amser ar gyfer pob disgybl ledled Cymru


**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**

travellingahead@savethechildren.org.uk

029 20803267/276

travellingahead1

@TravellingAhead

**www.travellingahead.com**



Gyda chefnogaeth | Supported by BBC Plant mewn Angen Children in Need

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government